



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2012 Rhif 210 (Cy.36)

2012 No. 210 (W.36)

**CYNLLUNIO GWLAD A
THREF, CYMRU**

**TOWN AND COUNTRY
PLANNING, WALES**

Gorchymyn Caniatâd Cynllunio
(Tynnu'n ôl Orchymyn Datblygu
neu Orchymyn Datblygu Lleol)
(Iawndal) (Cymru) 2012

The Planning Permission
(Withdrawal of Development Order
or Local Development Order)
(Compensation) (Wales) Order
2012

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

(This note is not part of the Order)

Mae adran 107 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("y Ddeddf") yn darparu bod iawndal yn daladwy pan fo caniatâd cynllunio a roddwyd gan awdurdod cynllunio lleol yn cael ei ddirymu neu ei addasu ar ôl hynny. Mae adran 108 o'r Ddeddf yn estyn yr hawl hon i gael iawndal i amgylchiadau pan fo caniatâd cynllunio a roddwyd drwy orchymyn datblygu neu orchymyn datblygu lleol yn cael ei dynnu'n ôl.

Section 107 of the Town and Country Planning Act 1990 ("the Act") provides for compensation to be payable where planning permission granted by a local planning authority is subsequently revoked or modified. Section 108 of the Act extends this entitlement to compensation to circumstances where planning permission granted by a development order or a local development order is withdrawn.

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio adran 108 fel y mae'n gymwys i Gymru.

This Order amends section 108 as it applies to Wales.

Mae diwygiad i is-adran (2A) o adran 108 yn darparu ar gyfer sefyllfa lle y mae caniatâd cynllunio o ddisgrifiad rhagnodedig a roddwyd drwy orchymyn datblygu neu orchymyn datblygu lleol yn cael ei dynnu'n ôl drwy ddyroddi cyfarwyddiadau o dan y pwerau a roddwyd gan y gorchymyn hwnnw. Canlyniad y diwygiad yw mai dim ond os yw cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygiad a ganiatawyd gynt drwy'r gorchymyn hwnnw yn cael ei wneud o fewn 12 mis i'r dyddiad y daeth y cyfarwyddiadau'n effeithiol y bydd iawndal yn daladwy.

An amendment to subsection (2A) of section 108 provides for the situation where planning permission of a prescribed description granted by a development order or local development order is withdrawn by the issue of directions under powers conferred by that order. The result of the amendment is that compensation is payable only if an application for planning permission for development formerly permitted by that order is made within 12 months of the directions taking effect.

Mae diwygiad i is-adran (3C) yn darparu, pan fo caniatâd cynllunio a roddwyd drwy orchymyn datblygu wedi ei dynnu'n ôl, ni fydd unrhyw hawl i gael iawndal:

An amendment to subsection (3C) provides that where planning permission granted by a development order is withdrawn, there will be no entitlement to compensation where:

- (i) pan fo caniatâd wedi ei roi ar gyfer datblygiad o ddisgrifiad rhagnodedig;

- (i) permission was granted for development of a prescribed description;

- (ii) pan fo'r caniatâd yn cael ei dynnu'n ôl yn y dull rhagnodedig; a
- (iii) pan fo hysbysiad am y tynnu'n ôl yn cael ei gyhoeddi heb fod yn llai na 12 mis, a heb fod yn hwy na'r cyfnod rhagnodedig, cyn i'r tynnu'n ôl ddod yn effeithiol.

Os cychwynnir y datblygiad cyn i'r hysbysiad gael ei gyhoeddi, bydd iawndal ar gael onid yw'r gorchymyn o dan sylw yn cynnwys darpariaeth sy'n caniatáu cwblhau'r datblygiad ar ôl i'r caniatâd gael ei dynnu'n ôl.

Yn yr un modd, pan fo caniatâd cynllunio a roddwyd drwy orchymyn datblygu lleol yn cael ei dynnu'n ôl, mae diwygiad i is-adran (3D) yn darparu na fydd unrhyw hawl i gael iawndal pan fo hysbysiad o'r tynnu'n ôl yn cael ei gyhoeddi heb fod yn llai na 12 mis, a heb fod yn fwy na'r cyfnod rhagnodedig, cyn i'r tynnu'n ôl ddod yn effeithiol. Os cychwynnir y datblygiad cyn i'r hysbysiad gael ei gyhoeddi, bydd iawndal ar gael eto onid yw'r gorchymyn o dan sylw yn cynnwys darpariaeth sy'n caniatáu cwblhau'r datblygiad ar ôl i'r caniatâd gael ei dynnu'n ôl.

Mae'r Gorchymyn hwn hefyd yn diwygio adran 108(6) er mwyn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ragnodi drwy reoliadau mewn perthynas â Chymru:

- (i) mathau o ddatblygiad y mae adran 108 yn gymwys iddynt;
- (ii) drwy ba ddull y mae caniatâd cynllunio i gael ei dynnu'n ôl;
- (iii) drwy ba ddull y mae hysbysiad am y tynnu'n ôl i gael ei gyhoeddi; a
- (iv) drwy ba ddull y mae hysbysiad am y tynnu'n ôl neu am ddirymu, diwygio neu gyfarwyddo i gael ei roi, a'r cyfnod hwyaf ar gyfer rhoi hysbysiad o'r fath ar ôl i'r caniatâd gael ei dynnu'n ôl.

Diwygiodd adran 189 o Ddeddf Cynllunio 2008 adran 108 mewn perthynas â Lloegr. Mae'r Gorchymyn hwn yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru sy'n cyfateb i adran 189. Effaith y Gorchymyn hwn, felly, yw bod yr hawl i gael iawndal pan fo gorchymynion datblygu neu orchymynion datblygu lleol yn cael eu tynnu'n ôl yr un fath yng Nghymru ag y mae eisoes yn Lloegr. Mae'r newid hwn yn cael ei wneud drwy hepgor o adran 108 y darpariaethau penodol a oedd yn ymwneud â Lloegr fel bod yr adran yn gymwys yn yr un modd i Gymru a Lloegr.

Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol sy'n gymwys i'r Gorchymyn hwn ar gael gan Lywodraeth Cymru ym Mharc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.org.uk.

- (ii) the permission is withdrawn in the prescribed manner; and
- (iii) notice of the withdrawal is published not less than 12 months, and not more than the prescribed period, before the withdrawal takes effect.

If development is started before the notice is published, compensation will be available unless the order in question contains provision permitting the completion of development after permission is withdrawn.

Similarly, where planning permission granted by a local development order is withdrawn, an amendment to subsection (3D) provides that there will be no entitlement to compensation where notice of the withdrawal is published not less than 12 months, and not more than the prescribed period, before the withdrawal takes effect. If development is started before the notice is published, compensation will again be available unless the order in question contains provision permitting the completion of development after permission is withdrawn.

This Order also amends section 108(6) so as to confer power on the Welsh Ministers to prescribe by regulations in relation to Wales:

- (i) types of development to which section 108 applies;
- (ii) the manner in which planning permission is to be withdrawn;
- (iii) the manner in which notice of withdrawal is to be published; and
- (iv) the manner and maximum period in which notice of withdrawal, revocation, amendment or direction are to be given after permission is withdrawn.

Section 189 of the Planning Act 2008 amended section 108 in relation to England. This Order makes provision in relation to Wales which corresponds to section 189. The effect of this Order, therefore, is that entitlement to compensation where development orders or local development orders are withdrawn will be the same in Wales as it already is in England. This change is effected by omitting the specific provisions that related to England from section 108 so that the section applies in the same way to both England and Wales.

The Regulatory Impact Assessment applicable to this Order is obtainable from the Welsh Government at: Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ and on the Welsh Government's web site at www.wales.org.uk.

2012 Rhif 210 (Cy.36)

2012 No. 210 (W.36)

**CYNLLUNIO GWLAD A
THREF, CYMRU**

**TOWN AND COUNTRY
PLANNING, WALES**

**Gorchymyn Caniatâd Cynllunio
(Tynnu'n ôl Orchymyn Datblygu
neu Orchymyn Datblygu Lleol)
(Iawndal) (Cymru) 2012**

**The Planning Permission
(Withdrawal of Development Order
or Local Development Order)
(Compensation) (Wales) Order
2012**

Gwnaed 27 Ionawr 2012
Yn dod i rym 31 Ionawr 2012

Made 27 January 2012
Coming into force 31 January 2012

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 203(1) a (6) o Ddeddf Cynllunio 2008(1), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred by section 203(1) and (6) of the Planning Act 2008(1), make the following Order.

Yn unol ag adran 203(9) o'r Ddeddf honno gosodwyd drafft o'r Gorchymyn hwn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a chymeradwywyd ef ganddo drwy benderfyniad.

In accordance with section 203(9) of that Act a draft of this Order was laid before and approved by a resolution of the National Assembly for Wales.

Enwi, cychwyn a dehongli

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Caniatâd Cynllunio (Tynnu'n ôl Orchymyn Datblygu neu Orchymyn Datblygu Lleol) (Iawndal) (Cymru) 2012.

(2) Daw i rym ar 31 Ionawr 2012.

(3) Yn y Gorchymyn hwn ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(2).

Title, commencement and interpretation

1.—(1) The title of this Order is the Planning Permission (Withdrawal of Development Order or Local Development Order) (Compensation) (Wales) Order 2012.

(2) It comes into force on 31 January 2012.

(3) In this Order "the Act" ("*y Ddeddf*") means the Town and Country Planning Act 1990(2).

Darpariaethau mewn perthynas â Chymru

2. Yn adran 108(3) o'r Ddeddf (iawndal am wrthod neu roi caniatâd cynllunio amodol a roddwyd gynt drwy orchymyn datblygu neu orchymyn datblygu lleol)—

Provisions in relation to Wales

2. In section 108(3) of the Act (compensation for refusal or conditional grant of planning permission formerly granted by development order or local development order)—

(1) 2008 p. 29.

(2) 1990 p. 8.

(3) Diwygiwyd adran 108 gan adran 40 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (p. 5) a chan adran 189 o Ddeddf Cynllunio 2008 (p. 29). Mae diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.

(1) 2008 c. 29.

(2) 1990 c. 8.

(3) Section 108 was amended by section 40 of the Planning and Compulsory Purchase Act 2004 (c. 5) and by section 189 of the Planning Act 2008 (c. 29). There are other amendments not relevant to this Order.

- (a) yn is-adran (2A)(a) hepgorer "in England";
- (b) yn is-adran (2A)(b) hepgorer "in England";
- (c) yn is-adran (3C)(a) hepgorer "in England";
- (ch) yn is-adran (3D) hepgorer paragraff (a);
- (d) yn is-adran (6), ar ôl "Secretary of State", mewnosoder "in relation to England and the Welsh Ministers in relation to Wales,".

- (a) in subsection (2A)(a) omit "in England";
- (b) in subsection (2A)(b) omit "in England";
- (c) in subsection (3C)(a) omit "in England";
- (d) in subsection (3D) omit paragraph (a);
- (e) in subsection (6) after "Secretary of State" insert "in relation to England and the Welsh Ministers in relation to Wales,".

John Griffiths

Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy, un o Weinidogion Cymru

Minister for Environment and Sustainable Development, one of the Welsh Ministers

27 Ionawr 2012

27 January 2012

© Hawlfraint y Goron 2012

© Crown copyright 2012

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

£4.00

1174W/02/12

ON

ISBN 978-0-348-10697-8



9 780348 106978